

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

2024 Rhif 1109 (Cy. 185)

ANIFEILIAID, CYMRU

IECHYD ANIFEILIAID

**Gorchymyn Iechyd Anifeiliaid
(Ffioedd Amrywiol) (Diwygio a
Dirymu) (Cymru) 2024**

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)

Mae'r Gorchymyn hwn yn diwygio Gorchymyn Crynoadau Anifeiliaid (Ffioedd) (Cymru) 2018 (O.S. 2018/645) (Cy. 119) ("y Gorchymyn Crynoadau Anifeiliaid"). Mae'n cynyddu'r ffioedd sy'n daladwy i Weinidogion Cymru o dan y Gorchymyn Crynoadau Anifeiliaid am wasanaethau a ddarperir gan yr Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion.

Mae hefyd yn dirymu Gorchymyn Clefydau Anifeiliaid (Ffioedd ar gyfer Profi Diheintyddion) 1991 (O.S. 1991/1168) ("Gorchymyn 1991") o ran Cymru.

Mae erthygl 2 yn diwygio'r Gorchymyn Crynoadau Anifeiliaid er mwyn rhoi, yn lle'r Atodlen, Atodlen newydd sy'n darparu ar gyfer ffioedd uwch am drwyddedu mangreoedd ar gyfer crynoadau anifeiliaid. Mae'r Atodlen newydd yn darparu fel a ganlyn.

- (a) Mae Tabl 1 yn nodi'r ffioedd sy'n daladwy am drwyddedu mangreoedd ar gyfer gwerthiannau anifeiliaid neu ganolfannau casglu nad ydynt yn esempt o dan erthygl 3(4) neu (5) o'r Gorchymyn Crynoadau Anifeiliaid. Mae colofn 2 yn gymwys i geisiadau sy'n dod i law a thrwyddedau a adnewyddir ar ôl 30 Tachwedd 2024. Mae'r ffioedd a nodir yng ngholofn 2 yn cynrychioli'r cynnydd canrannol a ganlyn i'r ffioedd cyfredol (wedi ei dalgrynnu i'r cyfanrif agosaf): 14% (rhesi 3, 4 a 5) a 13% (rhes 6).
- (b) Mae Tabl 2 yn nodi'r ffioedd sy'n daladwy am drwyddedu mangreoedd ar gyfer sioeau

neu arddangosfeydd nad ydynt yn esempt o dan erthygl 3(4) neu (5) o'r Gorchymyn Crynoadau Anifeiliaid. Mae colofn 2 yn gymwys i geisiadau sy'n dod i law a thrwyddedau a adnewyddir ar ôl 30 Tachwedd 2024. Mae'r ffioedd a nodir yng ngholofn 2 yn cynrychioli'r cynnydd canrannol a ganlyn i'r ffioedd cyfredol (wedi ei dalgrynnu i'r cyfanrif agosaf): 20% (rhes 3), 14% (rhes 4), 20% (rhes 5), 92% (rhes 6) a 44% (rhes 7).

- (c) Mae Tabl 3 yn nodi ffioedd atodol sy'n daladwy am drwyddedu mangreoedd. Mae colofn 2 yn gymwys i ymweliadau milfeddygol a gynhelir ar ôl 30 Tachwedd 2024. Mae'r ffioedd a nodir yng ngholofn 2 yn cynrychioli'r cynnydd canrannol a ganlyn i'r ffioedd cyfredol (wedi ei dalgrynnu i'r cyfanrif agosaf): 14% (rhesi 3 a 4) a 9% (rhesi 5 a 6).

Mae erthygl 3 yn dirymu Gorchymyn 1991 sy'n gwneud darpariaeth ar gyfer ffioedd sy'n daladwy am brofi o dan ddeddfwriaeth nad yw mewn grym mwyach.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Gorchymyn hwn. O ganlyniad, lluniwyd asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Gorchymyn hwn. Gellir cael copi oddi wrth: Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ ac mae wedi ei gyhoeddi ar www.llyw.cymru.

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

2024 Rhif 1109 (Cy. 185)

ANIFEILIAID, CYMRU

IECHYD ANIFEILIAID

**Gorchymyn Iechyd Anifeiliaid
(Ffioedd Amrywiol) (Diwygio a
Dirymu) (Cymru) 2024**

Gwnaed 6 *Tachwedd* 2024

Gosodwyd *gerbron* *Senedd*
Cymru 8 *Tachwedd* 2024

Yn dod i rym 1 *Rhagfyr* 2024

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddir gan adran 84(1) o Ddeddf Iechyd Anifeiliaid 1981(1), yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn.

-
- (1) 1981 p. 22. Diffinnir y term “the Ministers” yn adran 86(1)(c). Mae swyddogaethau a roddwyd i “the Ministers” o dan y Ddeddf, i’r graddau y maent yn arferadwy o ran Cymru, wedi eu breinio yng Ngweinidogion Cymru. Trosglwyddwyd holl swyddogaethau Gweinidog y Goron o dan adran 84(1) o’r Ddeddf, i’r graddau y maent yn arferadwy o ran Cymru gan Ysgrifennydd Gwladol Cymru, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672). Trosglwyddwyd unrhyw rai o swyddogaethau eraill Ysgrifennydd Gwladol yr Alban ac Ysgrifennydd Gwladol Cymru o dan adran 84(1) o’r Ddeddf i’r Gweinidog Amaethyddiaeth, Pysgodfeydd a Bwyd gan Orchymyn Trosglwyddo Swyddogaethau (Amaethyddiaeth a Bwyd) 1999 (O.S. 1999/3141). Trosglwyddwyd swyddogaethau’r Gweinidog Amaethyddiaeth, Pysgodfeydd a Bwyd o dan adran 84(1) o’r Ddeddf wedi hynny i’r Ysgrifennydd Gwladol gan Orchymyn y Weinyddiaeth Amaethyddiaeth, Pysgodfeydd a Bwyd (Diddymu) 2002 (O.S. 2002/794). Trosglwyddwyd y swyddogaethau hyn a oedd gan yr Ysgrifennydd Gwladol, i’r graddau y maent yn arferadwy o ran Cymru, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 2004 (O.S. 2004/3044). Yn rhinwedd adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32), a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, fe’u trosglwyddwyd i Weinyddogion Cymru. Yn rhinwedd paragraff 7 o Ran 2 o Atodlen 3 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae swyddogaethau Gweinidog y Goron wedi eu trosglwyddo heb y gofyniad am gymeradwyaeth y Trysorlys yn adran 84(1).

Enwi, cymhwyso a dod i rym

1.—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Iechyd Anifeiliaid (Ffioedd Amrywiol) (Diwygio a Dirymu) (Cymru) 2024.

(2) Mae'n gymwys o ran Cymru a daw i rym ar 1 Rhagfyr 2024.

Diwygio Gorchymyn Crynadau Anifeiliaid (Ffioedd) (Cymru) 2018

2. Yng Ngorchymyn Crynadau Anifeiliaid (Ffioedd) (Cymru) 2018(1), yn lle'r Atodlen rhodder yr Atodlen sydd wedi ei chynnwys yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn.

Dirymu

3. Mae Gorchymyn Clefydau Anifeiliaid (Ffioedd ar gyfer Profi Diheintyddion) 1991(2) wedi ei ddirymu o ran Cymru.

Huw Irranca-Davies

Y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet
dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig, un o
Weinidogion Cymru
6 Tachwedd 2024

(1) O.S. 2018/645 (Cy. 119), a ddiwygiwyd gan O.S. 2022/1156 (Cy. 239).

(2) O.S. 1991/1168, a ddirymwyd o ran Lloegr gan O.S. 2005/379 ac o ran yr Alban gan O.S.A. 2023/143.

YR ATODLEN Erthygl 2

“YR ATODLEN Erthygl 3

Tabl 1

Ffioedd sy'n daladwy am drwyddedu mangreoedd ar gyfer gwerthiannau anifeiliaid neu ganolfannau casglu nad ydynt wedi eu heithrio o dan erthygl 3(4) neu (5) o'r Gorchymyn hwn

<i>Colofn 1</i>	<i>Colofn 2</i>
<i>Gweithgaredd</i>	<i>Ffi (£) am geisiadau sy'n dod i law, a thrwyddedau a adnewyddir</i>
Cais am ddyroddi neu (pan fo'r fangre wedi ei newid yn sylfaenol) ddiwygio trwydded ar gyfer mangre werthu neu ganolfan gasglu pan fo arolygydd milfeddygol yn asesu bod y fangre honno yn peri risg isel o ran clefydau. Mae'r ffi hon yn cynnwys hyd at 90 munud o amser arolygu.	433
Cais am ddyroddi neu (pan fo'r fangre wedi ei newid yn sylfaenol) ddiwygio trwydded ar gyfer mangre werthu neu fangre sydd i'w defnyddio fel canolfan gasglu, pan fo arolygydd milfeddygol yn asesu bod y fangre honno yn peri mwy na risg isel o ran clefydau. Mae'r ffi hon yn cynnwys hyd at 2 x 90 o funudau o amser arolygu.	780
Ffi adnewyddu trwydded flynyddol ar gyfer mangre a ddefnyddir ar gyfer gwerthiannau anifeiliaid neu fangre sydd i'w defnyddio fel canolfan gasglu, pan fo arolygydd milfeddygol yn asesu bod y fangre honno yn peri risg isel o	387

ran clefydau, a'i bod yn ofynnol cynnal un ymweliad arolygu yn unig er mwyn penderfynu ar yr adnewyddiad. Mae'r ffi hon yn cynnwys hyd at 75 munud o amser arolygu.

Ffi adnewyddu trwydded 550
flynyddol ar gyfer mangre a ddefnyddir ar gyfer gwerthiannau anifeiliaid neu fangre sydd i'w defnyddio fel canolfan gasglu, pan fo arolygydd milfeddygol yn asesu bod y fangre honno yn peri mwy na risg isel o ran clefydau, a'i bod yn ofynnol felly cynnal dau ymweliad arolygu er mwyn penderfynu ar yr adnewyddiad. Mae'r ffi hon yn cynnwys hyd at 2 x 75 o funudau o amser arolygu.

Tabl 2

Ffioedd sy'n daladwy am drwyddedu mangreoedd ar gyfer sioeau neu arddangosfeydd nad ydynt wedi eu heithrio o dan erthygl 3(4) neu (5) o'r Gorchymyn hwn

<i>Colofn 1</i>	<i>Colofn 2</i>
<i>Gweithgaredd</i>	<i>Ffi (£) am geisiadau sy'n dod i law, a thrwyddedau a adnewyddir</i>
Cais am drwydded i drefnu sioeau neu arddangosfeydd mewn mangre y mae arolygydd milfeddygol yn asesu ei bod yn peri risg isel o ran clefydau. Mae'r ffi hon yn cynnwys hyd at 60 munud o amser arolygu.	283
Cais am drwydded i drefnu sioeau neu arddangosfeydd mewn mangre y mae arolygydd milfeddygol yn asesu ei bod yn peri mwy na risg isel o ran clefydau.	467

Mae'r ffi hon yn cynnwys hyd at 90 munud o amser arolygu.	
Adnewyddu trwydded mangre sioeau neu arddangosfeydd yn flynyddol pan fo arolygydd milfeddygol yn asesu nad yw ymweliad arolygu yn ofynnol.	201
Adnewyddu trwydded mangre sioeau neu arddangosfeydd yn flynyddol pan fo arolygydd milfeddygol yn asesu bod ymweliad arolygu sylfaenol yn ofynnol. Mae'r ffi hon yn cynnwys hyd at 60 munud o amser arolygu.	329
Adnewyddu trwydded mangre sioeau neu arddangosfeydd yn flynyddol pan fo arolygydd milfeddygol yn asesu bod mwy nag ymweliad arolygu sylfaenol yn ofynnol. Mae'r ffi hon yn cynnwys hyd at 60 munud o amser arolygu.	329

Tabl 3

Ffioedd atodol sy'n daladwy am drwyddedu mangreoedd

<i>Colofn 1</i>	<i>Colofn 2</i>
<i>Gweithgaredd</i>	<i>Ffi (£) am yr ymweliadau milfeddygol a gynhelir</i>
Ymweliad milfeddygol ychwanegol at ddiben ystyried cais am drwydded, adnewyddu trwydded yn flynyddol neu ymweliad dilynol yn sgil peidio â chydymffurfio, sy'n cynnwys hyd at 75 o funudau o amser arolygydd milfeddygol ar gyfer yr ymweliad hwnnw.	362
Ymweliad milfeddygol at ddiben ystyried cais am	362

newid gweithredol yn
ystod y flwyddyn, sy'n
cynnwys hyd at 75 o
funudau o amser
arolygydd milfeddygol ar
gyfer yr ymweliad
hwnnw.

Tâl atodol ar unrhyw
ymweliad pan fo'r amser
arolygu milfeddygol yn
hwy na'r amser
penodedig a ddarperir yn
yr Atodlen hon.

24 am bob chwarter awr
neu ran o chwarter awr a
dreulir

Yr amser a dreulir gan
arolygydd milfeddygol
yn teithio i'r fangre
drwyddedig, neu'r fangre
y bwriedir ei
thrwyddedu, ac oddi yno,
at ddiben
gweithgareddau
trwyddedu nad ydynt
wedi eu heithrio rhag
ffioedd o dan erthygl
3(4) neu (5) o'r
Gorchymyn hwn.

24 am bob chwarter awr
neu ran o chwarter awr a
dreulir, hyd at uchafswm
o 144"